# 4. Y Sector Gwaith Ieuenctid

## Datblygiadau yn y sector gwaith ieuenctid yn 2006-2007

Yn allweddol i'r datblygiadau yn y sector gwaith ieuenctid y bu meithrin perthnasau rhwng ADCDF a'r Is-adran Cyfleoedd Dysgu Ieuenctid ac Oedolion (ICDIO). Y person arweiniol a enwebwyd o ICDIO (Cam gweithredu 4.1.3) yw Courtney Taylor, a fu'n gweithio'n agos gyda Cyfanfyd i gyflawni camau gweithredu blaenoriaethol a bu hefyd yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu sy'n berthnasol i ICDIO. Mae Courtney yn awr wedi symud i rôl cydlynydd awdurdodau lleol ar gyfer ADCDF dros strategaeth ac ieuenctid am gyfnod o ddeuddeg mis.

### Datganiad cwricwlwm Gwaith Ieuenctid (Cam gweithredu 4.1.1)

Diweddarwyd y datganiad cwricwlwm gwaith ieuenctid a chynhwyswyd ynddo gyfeiriadau at ADCDF.

### Archwiliad PPI (Cam gweithredu 4.1.2)

Cysylltwyd â phob awdurdod lleol ynghylch ADCDF o fewn eu rhaglenni partneriaeth pobl ifanc. Mae canlyniadau'r archwiliad hwn wedi dylanwadu ar ddatblygiad yr hyfforddiant a restrir isod.

### Dealltwriaeth gyffredin ar gyfer y sector (Cam gweithredu 4.3.1)

Mae Cyfanfyd yn dwyn ynghyd grŵp o gynrychiolwyr o'r sector i ddechrau'r broses o ddatblygu dealltwriaeth gyffredin ar gyfer y sector. Yna bydd y gwaith hwn yn arwain at fod tendr yn cael ei gynnig i gyflawni argymhellion y grŵp.

### Gwaith Ieuenctid Byd-eang (Camau gweithredu 4.4.1, 4.4.3, 4.4.7, )

Mae Cyfanfyd yn parhau â'u rhwydwaith gwaith ieuenctid byd-eang gyda chymorth gan y panel ar gyfer eleni.
Mae diweddariadau rheolaidd, cyfarfodydd a gwybodaeth yn cael eu dosbarthu.

**Cyfathrebu ar gyfer ADCDF (Cam gweithredu 4.2.6)**

Mae'r adnoddau a ddelir yn Llyfrgell ICDIO wedi cael eu diweddaru i gynnwys adnoddau sy'n berthnasol i ADCDF. Mae'r rhain yn awr ar gael i'r holl staff sydd â diddordeb. Cynhwysir gwybodaeth berthnasol am ADCDF hefyd yn yr ohebiaeth chwe misol drwy gyfrwng y Coleg Staff, at bawb sy'n cyfranogi mewn hyfforddiant gwaith ieuenctid.

**Arolwg Estyn (Cam gweithredu 4.1.5)**

Rhoddwyd i Estyn y gwaith o gynnal arolwg sylfaenol ar gyfer ADCDF yn y sector gwaith ieuenctid a'r sector addysg barhaus i oedolion. Bydd yr adroddiad hwn ar gael erbyn Mawrth 2008. Bydd yr adroddiad yn dylanwadu ar ddatblygiadau pellach ym mhob sector.

**Hyfforddiant (Camau gweithredu 4.5.1, 4.2.4, 4.2.5, )**

Dyfarnwyd contract i Cyfanfyd, a bydd yn cysylltu gyda Choleg Cymunedol YMCA, a benodwyd gan y Cynulliad i reoli hyfforddiant i awdurdodau lleol yn y maes hwn, a'i rôl fydd sicrhau ansawdd cyffredinol y modd y cyflwynir y gwaith hwn. Bydd Cyfanfyd yn sefydlu strwythurau er mwyn i'r Coleg gyflwyno'r amcan hwn a Cyfanfyd, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am gyflawni.